# Astudiaeth Achos Cyflogadwyedd Prifysgol Abertawe

Prifysgol Abertawe
Swansea University



## Anh Nguyen

**Cwrs: MA mewn Cyfiawnder Troseddol Cymhwysol a Throseddeg**
**Blwyddyn Graddio: 2024**

Wrth i Anh, sy'n hanu o Fietnam yn wreiddiol, astudio am ei MA mewn Cyfiawnder Troseddol a Throseddeg Gymhwysol ym Mhrifysgol Abertawe, manteisiodd ar amrywiaeth o wasanaethau cymorth cyflogadwyedd; roedd y rhain yn cynnwys cwblhau'r Cwrs Datblygu Gyrfa a chymryd rhan mewn cyfres o weithdai a digwyddiadau a drefnwyd ar y cyd gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA) a Thîm Cyflogadwyedd Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Bu'r cymorth gyrfaoedd sydd ar gael drwy ACA yn gymorth i Anh wrth ehangu ei sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys datblygu CV a llythyr eglurhaol, ymarfer cyfweliadau a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wrth chwilio am swydd. Fel myfyriwr rhyngwladol, roedd Ahn yn awyddus i ennill profiad a theilwra ei CV presennol a'i phrofiad gwaith ar gyfer marchnad swyddi'r DU.

Wrth sôn am fanteisio ar y cymorth a oedd ar gael, meddai Anh:

"Penderfynais gwblhau'r Cwrs Datblygu Gyrfa gan yr oeddwn am wella sgiliau ymarferol amrywiol ar gyfer fy ngyrfa yn y dyfodol megis creu CV, ysgrifennu eglurhaol ac actio cyfweliadau.

Mynychais sesiynau gweithdy hefyd ar sgiliau cyfweld, adeiladu cyfrif LinkedIn a siarad cyhoeddus. Mae'r cyflwyniadau yn ystod y sesiynau hyn mor glir a manwl, ac yn darparu'r holl elfennau ymarferol y gallaf eu defnyddio ar unwaith ar gyfer cymwysiadau ar gyfer interniaethau.

Mae hyfforddwyr  ACA mor gefnogol a meddylgar, ac oherwydd hynny dwi'n teimlo fy mod i'n cael fy annog i rannu a gofyn am help."

**I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Aber-tawe, ewch i'n tudalen we: [myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd](myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd)**